

Tribiwnlys Anghenion  
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational  
Needs Tribunal for Wales

# Anghenion Addysgol Arbennig

## Rwyf wedi Apelio. Sut gallaf i baratoi Datganiad Achos? Canllaw i rieni

Gall y llyfryn hwn, felly, fod yn ddefnyddiol i blant a'u cyfaill achos, os oes ganddynt un.

Os hoffech gael gwybod mwy am sut y gallai plant wneud eu hapêl eu hunain, gofynnwch i ni am gopi o'n Pecyn Gwybodaeth a'r Ffurflenni i Blant, Rhieni a Chyfeillion Achos.

Llinell Gymorth: 01597 829800

E-bost: [sentw@wales.gsi.gov.uk](mailto:sentw@wales.gsi.gov.uk)

Gwefan: [www.sentw.gov.uk](http://www.sentw.gov.uk)

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.**

### Dewis iaith

**Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.**

**Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.**

## Ynghylch y cyfarwyddyd hwn

Dylid darllen y daflen hon gyda'n llyfryn canllaw, **Sut i wneud apêl**. Os nad oes gennych gopi o'n llyfryn gofynnwch i ni am un.

Nod y daflen hon yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am baratoi datganiad achos pan fo apêl Anghenion Addysgol Arbennig wedi cael ei gwneud i TAAAC.

Ni allwn ymdrin â phopeth a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer pob apêl.

Efallai hefyd yn dibynnu ar destun eich apêl na fydd rhaid i chi anfon rhywfaint o'r wybodaeth a grybwyllir yn y daflen hon.

Dylech gysylltu â TAAAC os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses. Ni allwn roi cyngor cyfreithiol na chymorth i chi gyda pharatoi apêl.

Os ydym eisoes wedi derbyn gwybodaeth gyda'ch Cais am Apêl nid oes rhaid i chi ddweud wrthym eto.

## Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer rhieni sydd wedi apelio i TAAAC.

## Yr Amcan Gor-redol a'r Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Amcan pwysicaf y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'n ddisgwyliad gan y Tribiwnlys y bydd rhieni, cynrychiolwyr, swyddogion Awdurdodau Lleol a chyrrff cyfrifol, yn helpu i hybu'r amcan gor-redol drwy gydweithio â'i gilydd a'r Tribiwnlys er mwyn symud ymlaen gyda'r apêl neu'r cais.

## Rhoi gwybod i ni am eich achos

Mae gennych ddau gyfle i ddweud wrthym am eich achos. Yn gyntaf yn ysgrifenedig, cyn gwrandawriad eich apêl ac yn ail yn y gwrandawriad.

Cyn y gwrandawriad, mae'n rhaid i chi anfon datganiad achos ysgrifenedig atom. Mae hyn er mwyn rhoi eich barn i ni am yr apêl a'r ffeithiau. Ar yr un pryd, bydd yr Awdurdod Lleol (ALI) yn anfon ei ddatganiad achos ei hun. Bydd aelodau panel y tribiwnlys yn ystyried y ddau yn y gwrandawriad.

Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer y datganiadau achos, byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod chi a'r ALI yn gweld datganiad achos eich gilydd. Byddwn yn rhoi set o bapurau gyda'r tudalennau wedi'u rhifo i chi a'r ALI. Bydd angen i chi ddod â'r rhain i'r gwrandawriad.

Yn y gwrandawriad, byddwch chi ac unrhyw dyst y byddwch yn dod ag ef gyda chi yn cael cyfle i roi eich barn am yr apêl ac yn esbonio'r ffeithiau i banel y tribiwnlys.

Mae'r dystiolaeth a anfonwch atom cyn y gwrandawriad a beth rydych yn ei ddweud ar y diwrnod yr un mor bwysig. Gall penderfyniad y Tribiwnlys ystyried y dystiolaeth rydych chi a'r ALI yn ei rhoi i ni yn unig. Os ydych am i'r Tribiwnlys ystyried rhywbeth, gofalwch ei fod yn y dystiolaeth.

## Anfon tystiolaeth

Wrth baratoi eich datganiad achos helpwch ni drwy sicrhau:

- lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylai papurau fod yn gopïau A4 ar un ochr i'r papur a heb eu styffylu,
- dylai'r papurau fod mewn du a gwyn. Ni allwn wneud copïau lliw felly rydym yn awgrymu eich bod yn gwneud llungopi o unrhyw lyfrynau, fel prospectws yr ysgol, ac anfon hwn i mewn,
- peidiwch ag ychwanegu eich rhifau tudalen eich hun,
- cynhwyswch restr cynnwys ar gyfer yr holl adroddiadau a'r dystiolaeth yr ydych yn eu cyflwyno gyda'ch datganiad achos, er enghraifft: adroddiad y Seicolegydd Addysg dyddiedig 5 Mawrth 2012.
- peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol, dim ond llungopiâu o'r rhai gwreiddiol.

## Terfyn amser ar gyfer datganiadau achos

Mae terfyn amser llym erbyn pryd y mae'n rhaid i ni dderbyn eich datganiad achos ac unrhyw dystiolaeth arall. Byddwn yn dweud wrthy'ch pryd y bydd hyn. Fel arfer, mae gennych 30 diwrnod gwaith.

**Mae yna gyfyngiadau ar gynnwys tystiolaeth a dderbynnir ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer derbyn datganiadau achos fynd heibio.**

Weithiau, mae pobl yn dymuno anfon fideos, recordiadau a ffotograffau atom. Mae'r un terfyn amser yn berthnasol ar gyfer eu hanfon i mewn, ond anfonwch bum copi o unrhyw recordiad a ffotograff atom os gwelwch yn dda. Anfonwch ddeunydd fideo a sain ar fformatau DVD a CD yn unig atom os gwelwch yn dda. Dylech geisio cadw tystiolaeth wedi'i recordio mor fyr ag y bo modd.

Nodwch hefyd na allwn, am resymau sy'n ymwneud â diogelu data, dderbyn tystiolaeth sy'n cynnwys gwybodaeth, recordiadau neu luniau o blant heblaw eich rhai chi eich hun.

## Beth sy'n ofynnol yn ôl rheoliadau'r Tribiwnlys

Rhaid i chi gyflwyno datganiad achos ac unrhyw dystiolaeth y bwriadwch ddibynnu arni fel y derbynnir hi yn swyddfa TAAAC cyn diwedd cyfnod y datganiad achos.

**Mae'n rhaid i'ch datganiad achos gynnwys:**

Ym mhob achos **lle gwnaed yr apêl gan riant y plentyn:**

- farn y plentyn am y materion sy'n ymwneud â'r apêl, neu
- y rhesymau pam na chyflwynwyd y farn honno.

**lle gwnaed yr apêl gan y plentyn neu gyfaill achos y plentyn:**

- barn riant y plentyn am y materion a godwyd yn yr apêl, **neu**
- y rhesymau pam na chyflwynwyd y farn honno.

Un o ofynion rheoliadau'r Tribiwnlys yw bod safbwyntiau'r plentyn neu'r riant - yn dibynnu ar bwy sydd wedi cyflwyno'r apêl - yn cael eu darparu. **Bydd panel y tribiwnlys yn disgwyl**

i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn natganiad eich achos, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

## Gwybodaeth y mae angen i chi ddweud wrthym amdani

Yn dibynnu ar destun eich apêl efallai y bydd angen i ni wybod am:

- **Anghenion Addysgol Arbennig**

- Pa anghenion addysgol arbennig sydd gan eich plentyn?
- Beth a wnaed eisoes i helpu? Pwy sydd wedi rhoi'r cymorth (er enghraifft, athro, cynorthwydd neu therapydd) ac am ba hyd?
- Pa gynnydd y mae eich plentyn wedi'i wneud? Os bu asesiadau cynharach neu ganlyniadau profion cyn y rhai mwyaf diweddar, anfonwch gopiâu atom os gwelwch yn dda.

- **Ysgol**

- Pa bynciau neu weithgareddau ysgol mae eich plentyn yn cael anhawster gyda nhw? A oes eraill y mae ef neu hi yn dda am eu gwneud?
- Pa gymorth arbennig y mae eich plentyn yn ei dderbyn ar hyn o bryd? A oes athro neu gynorthwydd yn ei gefnogi? Os felly, am ba hyd, ac ym mha bynciau?
- Os tynnwyd eich plentyn allan o'r dosbarth ar gyfer ei addysgu mewn grŵp bach neu i'w addysgu ar ei ben ei hun, pa bynciau a addysgir iddo a beth yw nod yr addysgu?
- A yw eich plentyn yn defnyddio unrhyw offer arbennig?
- A oes gan eich plentyn gynllun addysg unigol (CAU)? Os oes, anfonwch gopi ohono atom. Bydd copiâu o gynlluniau cynharach yn ddefnyddiol hefyd.
- Beth mae'r ysgol yn ei ddweud am gynnydd eich plentyn? Gallai copiâu o adroddiadau ysgol, nodiadau o gyfarfodydd adolygu blynyddol a chanlyniadau TASau ein helpu.
- Faint o ddisgyblion sydd yn nosbarth eich plentyn?
- Faint o oedolion sy'n edrych ar ôl y dosbarth?

- **Meddygol**

- A oes gan eich plentyn gyflwr meddygol sy'n effeithio ar ei addysg? Os oes, sut mae'n effeithio ar ei addysg?
- A yw'r meddygon wedi ddweud bod yr effaith ar eu haddysg yn debygol o newid? Os felly, ym mha ffordd?

- **Therapi (therapi iaith a lleferydd, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol ac yn y blaen)**

- A yw eich plentyn wedi cael therapi yn barod? Gadewch i ni gael copiâu o unrhyw adroddiadau neu asesiadau proffesiynol.
- Pa newidiadau ydych chi'n dymuno eu gweld yn therapi eich plentyn?
- Sut ydych chi'n disgwyl i'r therapi helpu?
- Beth mae therapyddion wedi'i ddweud am gynnydd eich plentyn a'r therapi y dylai ef neu hi ei gael yn y dyfodol?

- **Newid ysgol**

- Sut bydd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol yr ydych chi yn ei hawgrymu yn arbennig o addas ar gyfer eich plentyn?
- Pam ydych chi'n dymuno iddo ef neu hi fynd yno, yn hytrach nag i ysgol arall?

- A yw'r ysgol yn arbenigo mewn addysgu plant gyda'r anabledd neu'r anhawster dysgu sydd gan eich plentyn neu a oes ganddi brofiad yn y maes hwnnw?
  - A yw'r ysgol yn addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol llawn?
  - Beth fyddai maint y dosbarth y byddai'ch plentyn yn ymuno ag ef? Faint o oedolion sy'n edrych ar ôl y dosbarth?
  - Pe bai eich plentyn yn byw yn yr ysgol, a oes rheswm addysgol am hynny?
  - Oni bai bod yr ysgol yn ysgol a gynhelir, faint mae lle yno yn ei gostio?
  - Faint o amser fyddai hi'n ei gymryd i fynd i'r ysgol ac oddi yno, a faint fyddai hyn yn ei gostio?
  - Er mwyn sicrhau bod gennym gymaint o wybodaeth â phosibl am yr ysgol o'ch dewis, anfonwch gopi o'i phrosiectws atom os gwelwch yn dda.
- **Addysg gartref**
    - Pam y byddai'n well i'ch plentyn gael ei addysgu gartref, yn hytrach nag yn yr ysgol?
    - Pa drefniadau manwl ydych chi yn eu hawgrymu?
    - Faint fyddent yn ei gostio?

## Tystiolaeth Ysgrifenedig Hwyr

Gelwir dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer datganiadau achos yn dystiolaeth ysgrifenedig hwyr. Mae yna gyfyngiadau ar dderbyn dystiolaeth ysgrifenedig yn hwyr.

Gallwch ofyn i banel y Tribiwnlys ar ddiwrnod y gwrandawriad a all y dystiolaeth hwyr gael ei derbyn. Bydd y panel y Tribiwnlys yn ystyried eich cais ar yr amod bod:

- y ddwy ochr yn cytuno i dderbyn y dystiolaeth ysgrifenedig hwyr; NEU
- gallwch ddangos bod y dystiolaeth ysgrifenedig hwyr yn bodloni'r amodau canlynol:
  - nid oedd y dystiolaeth hwyr ar gael cyn diwedd y dyddiad cau ar gyfer y datganiad achos; ac ni ellid disgwyl yn rhesymol iddi fod wedi bod ar gael; ac
  - anfonwyd copi o'r dystiolaeth hwyr at TAAAC, a'r parti arall fel ei bod yn cael ei derbyn o leiaf 5 diwrnod gwaith clir cyn y gwrandawriad.
  - Gall panel y tribiwnlys dderbyn dystiolaeth ysgrifenedig hwyr dim ond ar ôl ystyried unrhyw sylwadau gan y parti arall a dim ond os yw'r dystiolaeth yn annhebygol o rwystro'r gwaith o gynnal y gwrandawriad yn effeithlon
  - Os nad yw'r amodau yn cael eu bodloni, gall panel y tribiwnlys ddal i roi caniatâd i barti gyflwyno dystiolaeth ysgrifenedig hwyr yn y gwrandawriad os gellir dangos oni bai bod y dystiolaeth yn cael ei derbyn fod risg ddifrifol o niwed i'r parti sy'n ceisio dibynnu arni.

Gall panel y tribiwnlys wrthod derbyn dystiolaeth ysgrifenedig hwyr os yw o'r farn y byddai gwneud hynny yn groes i fuddiannau cyfiawnder.

Os nad yw'r dystiolaeth ysgrifenedig hwyr eisoes wedi cael ei chopio i TAAAC a'r parti arall fel ei bod yn cael ei derbyn o leiaf 5 diwrnod gwaith clir cyn y gwrandawriad, dylech ddod â 5 copi o'r dystiolaeth ysgrifenedig hwyr gyda chi i'r gwrandawriad.

## Dod id gytundeb

Mae apeliadau yn ein cyrraedd ni dim ond os ydych yn anghytuno gyda phenderfyniad yr Awdurdod Lleol, ond mae'n briodol i drafodaethau rhyngoch chi a'r Awdurdod Lleol barhau i ddiwydd ar ôl i apêl gael ei gwneud. Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn dweud wrthym am

unrhyw rannau o'r apêl yr ydych chi a'r Awdurdod Lleol wedi llwyddo i'w datrys ar ôl i ni dderbyn yr apêl.

## Y gwrandawriad

Byddwn yn ysgrifennu atoch, fel arfer ar ôl i ni dderbyn datganiadau achos i adael i chi wybod y dyddiad pryd y cynhelir y gwrandawriad.

Bydd y gwrandawriad fel arfer yn digwydd mewn gwesty ddim mwy nag ychydig o oriau o bellter teithio o ble rydych yn byw.

Mae gwrandawiadau fel arfer yn dechrau am 10:00 yn y bore ac yn aml yn cymryd drwy'r dydd. Dylech anelu at gyrraedd o leiaf 30 munud cyn y dylai'r gwrandawriad ddechrau.